Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llannon
# Heol Y Nant
# Llannon
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 6AE

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2014**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd wledig yw Ysgol Llannon. Fe'i lleolir ym mhentref Llannon sydd rhyw chwe milltir o dref Llanelli. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o'i chwmpas. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau'r tymor cyn iddynt gyrraedd eu penblwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 109 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae'r niferoedd wedi codi'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2007. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn pum dosbarth. Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed.

Mae tua hanner y disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae tua 2% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r canran sirol a chanran Cymru. Mae 22% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2007. Yn ogystal â'r pennaeth, sydd â gofal dosbarth am dri diwrnod yr wythnos, mae pedair athrawes amser llawn a dwy athrawes rhan amser.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llannon yn 2013-2014 yw £3,460. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Gynradd Llannon yn safle 77ain o'r 106 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Llannon yn dda gan fod:

- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda;
- bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu;
- profiadau dysgu ysgogol a chyfoethog yn cael eu cynllunio ar gyfer y disgyblion, ansawdd yr addysgu yn gyson dda a staff ategol yn cefnogi'r dysgu yn fedrus; a bod
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, croesawgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth yn cynnig arweiniad pwrpasol sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles disgyblion;
- holl aelodau'r staff yn glir ynghylch eu rolau ac yn gweithio fel tîm;
- yr ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun a'r corff llywodraethol yn herio'r ysgol yn effeithiol;
- blaenoriaethau a thargedau heriol a phriodol yn weithredol ar gyfer gwella safonau; a bod
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella safon ysgrifennu yn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella presenoldeb

A3 Cysoni arfer asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A4 Symleiddio'r cynlluniau ar gyfer gwella er mwyn i arweinwyr a staff fonitro cynnydd yn fwy effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion Ysgol Llannon ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau sy'n briodol i'w hoed ac eithrio yn y Gymraeg ble mae'r iaith yn newydd i tua hanner ohonynt. Mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r dosbarth ac yn canolbwyntio ac yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o iaith, llythrennedd a'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae eu medrau gwrando yn dda iawn ac mae'r rhan fwyaf yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru cynnal sgyrsiau mewn modd aeddfed yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa briodol wrth sgwrsio am eu gwaith ynghyd â materion eraill sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Mae'r mwyafrif yn medru mynegi barn mewn modd aeddfed am ystod o destunau. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru trawsieithu'n effeithiol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Mae bron pob un o ddisgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn ystyrlon a chyda rhuglder a mynegiant clir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda rhuglder, mynegiant a dealltwriaeth dda. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i gyflwyno mewn modd diddorol. Maent yn defnyddio eu medrau trawsieithu'n hyderus wrth wneud gwaith ymchwil.

Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Mae rhan fwyaf disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm i bwrpasau gwahanol ac ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae gwaith y mwyafrif ohonynt yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith er bod gwallau cystrawen a sillafu yn amlygu yng ngwaith ysgrifennu lleiafrif ohonynt. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig i safon uchel yn Saesneg mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddatblygu bywgraffiadau ar awduron cyfoes.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gwneud defnydd da o'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dadansoddi gwrthrychau, defnyddio amser mewn gwahanol

gyd-destunau, a thrin data syml, er enghraifft wrth fesur a chofnodi pellter eu tafliad pêl yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn trafod data'n hyderus, er enghraifft trwy fesur ar fap a chofnodi a chymharu'r pellter y mae nwyddau yn teithio i Gymru. Maent hefyd yn llunio graffiau sy'n briodol at wahanol bwrpasau er enghraifft wrth fesur, cofnodi a dadansoddi tymheredd yn eu gwersi gwyddoniaeth.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniad bechgyn a merched. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac mae'r disgyblion o allu uwch yn cyflawni'n dda iawn.

Dylid ystyried y tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol gyda gofal gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fach.

Yn 2013, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ac yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn y 50% isaf yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn uwch ym mhob maes dysgu o gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru yn 2013. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi codi o'r 25% isaf i'r 25% uchaf.

Mae canran y disgyblion11 oed a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'n tueddu i fod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is yn y Gymraeg. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 25% uchaf yn ystod y cyfnod. Dros gyfnod, mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel uwch (lefel 5) yn y pedwar pwnc yn uwch na chanrannau'r teulu o ysgolion a Chymru. O gymharu perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae ymhlith y 25% uchaf mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

**Lles: Da**

Mae gan ddisgyblion Ysgol Llannon agweddau cadarnhaol tuag at fyw a bwyta ac yfed yn iach. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn medru troi at unrhyw un am gymorth pe bai angen.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Maent yn ymdrin â phawb gyda pharch a chwrteisi. Mae'r mwyafrif yn cyfrannu eu syniadau eu hunain yn effeithiol i'r hyn y byddant am ei ddysgu. Fodd bynnag, anghyson yw gallu'r disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain.

Mae canran presenoldeb yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu. O'i gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim, mae wedi bod ymhlith y 25% isaf yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae llais y disgyblion yn cael sylw da, gyda'r ysgol yn ymateb yn dda i'w syniadau drwy'r cyngor ysgol a'r cynghorau eco ac ysgol iach. Mae'r aelodau yn cael cyfle rheolaidd i fynegi barn, datblygu syniadau ac i drafod yn aeddfed ac agored wrth gyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â'r ysgol. Enghraifft dda o hyn yw eu cyfraniad tuag at wella cyflwr y toiledau.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hardal a byd gwaith. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniad brwdfrydig disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i'w menter busnes sy'n creu nwyddau i'w gwerthu yn Ffair Nadolig yr eglwys leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau ysgogol a chyfoethog sy'n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fanwl ac yn cwrdd yn llawn â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus a gwneir defnydd effeithiol o'r ardal allanol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar brofiadau blaenorol y disgyblion ac mae'r cynllunio manwl yn sicrhau her briodol i ddisgyblion o bob gallu. Mae ymweliadau cyson fel y rhai i Lyn Llech Owain a'r Llyfrgell Genedlaethol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen rhoddir pwyslais amlwg ar ddatblygu llafaredd y dysgwyr ac addysgir medrau ffonetig yn llwyddiannus. Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion ysgrifennu'n estynedig ar ystod eang o bynciau diddorol. Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus i sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn weithredol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus. Mae'r ysgol wedi llwyddo i integreiddio'r Cwricwlwm Cymreig yn fedrus wrth ddatblygu themâu trawsgwricwlaidd newydd. Mae ymrwymiad yr ysgol i ddatblygu balchder bro yn amlwg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi mentrau lleol a chenedlaethol ynghyd â chyfranogi mewn prosiectau cymunedol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei hintegreiddio'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad brwdfrydig yr ysgol wrth gefnogi nifer o brosiectau Eco, gan gynnwys prosiect 'Maint Cymru'.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith gadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ymhob dosbarth. Mewn ychydig o wersi, gwneir defnydd effeithiol iawn o dargedau a luniwyd gan y disgyblion yn y wers flaenorol i arwain y dysgu. Gwneir defnydd hefyd o amrywiaeth o ddulliau dysgu sy'n sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn cyflawni i'r eithaf. Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm, ac maent yn esbonio

cysyniadau newydd yn glir. Maent yn holi'n dreiddgar er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae'r holl oedolion yn hyrwyddo Cymraeg cywir yn gyson. Mae'r staff cymorth yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu ar draws yr ysgol.

Yn y gwersi, mae athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion. Maent yn marcio eu gwaith yn drylwyr ac, yn yr enghreifftiau gorau, rhoddir sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Anghyson yw'r cyfleodd a roddir i ddisgyblion i fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O'r herwydd nid yw rôl y disgyblion yn y broses o osod targedau a gwella eu gwaith wedi sefydlu'n gyson drwy'r ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion gan ddefnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod targedau penodol ac i ddarparu tasgau priodol iddyn nhw er mwyn eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r adroddiadau i rieni yn drylwyr ac yn bodloni'r gofynion statudol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol ystod eang o raglenni a pholisïau gweithredol sy'n hyrwyddo lles ac iechyd y disgyblion yn effeithiol. Mae polisïau a strategaethau disgyblaeth a gwrth fwlio yn weithredol sy'n hyrwyddo lefelau uchel o ymddygiad yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Mae hyn oll yn sicrhau bod yr ysgol yn gwireddu ei hamcanion i 'gyd baratoi heddiw at ddyfodol yfory'. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth ac arweiniad asiantaethau allanol arbenigol. Enghraifft dda o hyn yw mewnbwn allweddol aelodau o'r gwasanaethau brys i sicrhau bod gan y disgyblion wybodaeth gadarn am gadw'n ddiogel.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cydymffurfio â'r Côd Ymarfer. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod gynhwysfawr o ffynonellau i adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau darpariaeth fuddiol ar eu cyfer. Caiff y cynlluniau addysg unigol eu llunio a'u hadolygu'n effeithiol mewn cydweithrediad â'r disgyblion a'u rhieni.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae Ysgol Llannon yn gymuned hapus, gyfeillgar a chroesawgar lle mae'r oedolion a'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd gyda pharch a gofal. Mae'r ethos cynhwysol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael hawl gyfartal i'r holl ddarpariaeth. Mae cyfraniad disgyblion hŷn fel llysgenhadon gwrth-fwlio yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o hawliau'r plentyn ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch.

Mae'r adeilad a'r safle yn cynnig amgylchedd dysgu ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Ers yr arolygiad diwethaf, y mae dau estyniad newydd wedi ychwanegu at y gofod dysgu sydd bellach yn hygyrch i ddisgyblion ac oedolion gydag anabledd. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r adeilad ac mae ansawdd yr arddangosfeydd yn creu awyrgylch dysgu lliwgar a symbylol. Mae ystod eang o adnoddau ar gael i'r staff a'r disgyblion ac fe'u defnyddir yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae'r adeilad a thir ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae ei harweinyddiaeth bwrpasol yn sicrhau bod pob agwedd ar fywyd yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles disgyblion trwy sicrhau ethos sydd yn hybu pob disgybl i gyrraedd ei lawn botensial.

Mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir. Drwy ddadansoddi ystod eang o ddata perfformiad, mae gan yr athrawon ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Dechrau ymsefydlu mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu o fewn gwersi.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth effeithiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cynyddu eu dealltwriaeth o faterion cwricwlaidd drwy gwrdd ag arweinwyr pwnc a derbyn cyflwyniadau ganddynt. Maent yn ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddiad data perfformiad a'r adroddiad hunanarfarnu. Maent yn herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer arsylwi'r addysgu, monitro'r cynllunio ac edrych ar waith disgyblion. Mae'r staff addysgu a chefnogi yn cyfrannu'n bwrpasol i'r broses. Mae'r pennaeth yn ceisio barn rhieni a disgyblion drwy holiaduron, ac mae'r rhain yn derbyn ystyriaeth lawn. Mae mewnbwn arweinydd system yr awdurdod yn cryfhau'r broses. Mae'r gweithdrefnau hyn yn yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cytbwys a chywir o'r ysgol.

Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o'r hunanarfarnu i osod blaenoriaethau a thargedau heriol a phriodol ar gyfer gwella safonau a gweithdrefnau rheolaethol. Er hyn, mae nifer y blaenoriaethau yn rhy faith, ac o'r

herwydd nid yw'n rhwydd i arweinwyr a staff fonitro cynnydd yn eu herbyn yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf. Mae hyn wedi arwain at welliant mewn safonau ac ansawdd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae partneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni. Enghraifft dda o hyn yw'r llyfrynnau bach mae'r ysgol yn eu creu i alluogi rhieni i helpu eu plant i ddysgu llythrennau a synau.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r Cylch Meithrin sydd ar y safle er mwyn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan yn y dosbarth derbyn. Mae trefniadau trosglwyddo disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn addas ac yn eu paratoi'n dda at y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion y clwstwr i sicrhau cymedroli a safoni asesiadau athrawon o waith disgyblion Cyfnod Allweddol 2. O ganlyniad, mae asesiadau athrawon yn gadarn. Mae'r ysgolion hefyd yn cydweithio i wella lles disgyblion drwy sefydlu ffyrdd o dracio eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae perthynas dda gyda'r awdurdod lleol, yn enwedig wrth elwa o'i wasanaethau i gefnogi'r disgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol.

Mae partneriaeth gref gyda'r gymuned leol. Mae'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, ac mae'r disgyblion yn gwneud cyfraniad sylweddol at fywyd y gymuned. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad disgyblion at Fenter Ysgolion y Treftadaeth Gymreig yn flynyddol, sydd yn hyrwyddo eu balchder yn eu Cymreictod.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n fedrus. Mae'n defnyddio staff addysgu a staff cefnogi'n bwrpasol i wneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u medrau ym mhob agwedd ar waith yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu wedi'i threfnu'n dda, ac mae'r athrawon yn defnyddio'r amser hwn yn effeithiol. Mae staff cefnogi yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddysgu disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol o fewn cymunedau dysgu proffesiynol gydag ysgolion y clwstwr, ac mae hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol at gyfoethogi darpariaeth yr ysgol. Enghreifftiau amlwg yw eu cydweithio i godi safonau iaith bechgyn, a datblygu darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y swyddog gweinyddol a'r corff llywodraethol, yn rheoli'r defnydd o adnoddau ariannol yn fuddiol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr ysgol warged sylweddol wrth gefn, ond mae'n fwriad gan y corff llywodraethol

i'w ddefnyddio'n bwrpasol at gryfhau'r tim arweinyddiaeth.  Mae disgyblion yn elwa o lefel uchel o adnoddau dysgu diddorol.

O ystyried y deilliannau da sydd yn yr ysgol, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dylid ystyried y tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol gyda gofal gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fach.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ac yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (deilliant 5) mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg ac mewn datblygiad mathemategol yn is na chyfartaleddau'r teulu ond yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn y 50% isaf yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl (deilliant 6) hefyd yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae canran y disgyblion gyrhaeddodd y deilliant uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu a Chymru. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi codi o'r 25% isaf i'r 25% uchaf.

Mae canran y disgyblion11 oed a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'n tueddu i fod yn uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is yn y Gymraeg. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 25% uchaf yn ystod y cyfnod. Mae ymhlith y 25% isaf yn y Gymraeg dros y tair blynedd ddiwethaf.

Dros gyfnod, mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel uwch (lefel 5) yn y pedwar pwnc yn uwch na chanrannau'r teulu o ysgolion a Chymru. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol yn y pedwar pwnc ar y lefel uwch ymhlith y 25% uchaf mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

O ystyried y niferoedd bach, nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched nac ychwaith rhwng cyflawniad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim gyda'r gweddill dros gyfnod.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 56 | 56<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 56 | 53<br>95% | 3<br>5% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 56 | 53<br>95% | 3<br>5% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 38 | 30 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 38 | 31 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 82% | 16% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 38 | 29 | 8 | 0 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 76% | 21% | 0% | 3% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 38 | 27 | 7 | 3 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 71% | 18% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 37 | 28 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 76% | 19% | 3% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 38 | 28 | 7 | 1 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 74% | 18% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 38 | 30 | 6 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 79% | 16% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 37 | 25 | 10 | 0 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 68% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 37 | 29 | 6 | 0 | 2 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 78% | 16% | 0% | 5% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 38 | 28 | 7 | 3 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 74% | 18% | 8% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 38 | 31 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 82% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 37 | 25 | 10 | 1 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 68% | 27% | 3% | 3% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 37 | 25 | 10 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 68% | 27% | 3% | 3% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 38 | 30<br>79% | 6<br>16% | 0<br>0% | 2<br>5% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 38 | 24<br>63% | 10<br>26% | 1<br>3% | 2<br>5% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 38 | 31<br>82% | 5<br>13% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 30 | 20<br>67% | 5<br>17% | 2<br>7% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 38 | 28<br>74% | 8<br>21% | 2<br>5% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 38 | 32<br>84% | 4<br>11% | 1<br>3% | 1<br>3% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Robert Huw Jenkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Marie Langabeer | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.